# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Aled Roberts**<br>**David Melding (Cadeirydd) (yn lle Rosemary Butler)** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Roedd y Dirprwy Lywydd yn dirprwyo ar ran y Llywydd, a anfonodd ei ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio'r eitem a ganlyn ddydd Mercher:

- **NDM5024 Leanne Wood (Canol De Cymru):** Arafu'r traffig i sicrhau diogelwch ein plant ysgol (30 munud)

Ddydd Mawrth a dydd Mercher, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer yr eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2012–**

- Dadl Cyfnod 3 ar Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol), o dan Reol Sefydlog 26.44 (60 munud)

  *Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.*

  *Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig:*

  *Cynnig Cyfnod 4 i gymeradwyo Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ieithoedd Swyddogol) o dan reol Sefydlog 26.47.*

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Dylanwadu ar y Broses o Foderneiddio Polisi Caffael Ewrop (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3(iv) **Dadleuon Aelodau Unigol: Dethol Cynnig i'w Drafod**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd gan Aelodau unigol, a detholwyd y cynnig a ganlyn i'w drafod ddydd Mercher 4 Gorffennaf:

**NNDM5023**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**
**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**
**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cefnogi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ym mhob etholiad a refferendwm a gynhelir yng Nghymru.

Cefnogwyd gan:

Keith Davies (Llanelli)
Christine Chapman (Cwm Cynon)

Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)
Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)
Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)
Julie James (Gorllewin Abertawe)
Peter Black (Gorllewin De Cymru)
Mick Antoniw (Pontypridd)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal y Ddadl gan Aelod Unigol nesaf ddydd Mercher 17 Hydref 2012.

## 4. Pwyllgorau

### 4(i) Adolygu Strwythur y Pwyllgorau

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur a oedd yn amlinellu'r profiadau a gafwyd o ran strwythur y pwyllgorau yn ystod blwyddyn gyntaf y pedwerydd Cynulliad.

*Strwythur y Pwyllgorau*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes nad yw rôl ddeuol y pwyllgorau, sef deddfu a chraffu ar bolisïau, wedi'i phrofi'n iawn eto, a daethpwyd i'r casgliad nad oes angen newid y strwythur ar hyn o bryd. Cytunodd yr Aelodau i barhau i adolygu'r system wrth i swmp y ddeddfwriaeth gynyddu.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid parhau i brif-ffrydio materion Ewropeaidd ar draws y pwyllgorau. Nodwyd bod y dull hwn o weithredu wedi gweithio'n dda, gan arwain at waith craffu mwy trylwyr ar faterion Ewropeaidd.

Nododd y Rheolwyr Busnes y rôl a chwaraeir gan gadeiryddion y pwyllgorau, a chytunwyd y dylid gwahodd y cadeiryddion i roi adborth am y rôl-ddisgrifiad presennol (sef y rôl-ddisgrifiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Busnes ym mis Mehefin 2011).

*Amserlen y Pwyllgorau*

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod newidiadau posibl i amserlen y pwyllgorau er mwyn hwyluso cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am slotiau hirach a mwy cyson ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor Busnes yr anawsterau a geir wrth geisio amserlennu cyfarfodydd. Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn parhau i gynnal cyfarfodydd ar fore dydd Mawrth, a bod hawl gan y Pwyllgor hefyd i gynnal cyfarfodydd ar brynhawn dydd Llun os oes angen gwneud hynny er mwyn bodloni gofynion ei lwyth gwaith, gan y byddai cynnal cyfarfodydd mewn slotiau eraill yn arwain at wrthdaro sylweddol â chyfrifoldebau eraill yr Aelodau. Yn ogystal, nododd y Pwyllgor Busnes fod angen elfen o hyblygrwydd, o bosibl, mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd y grwpiau pleidiol ar fore dydd Mawrth, er mwyn galluogi'r pwyllgorau i gynnal cyfarfodydd hirach lle bo angen.

Nododd y Rheolwyr Busnes fod aelodaeth Aelodau Plaid Cymru o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn cael ei herio'n aml, gan fod nifer o Aelodau'r blaid wedi bod yn Weinidogion. O dan Reol Sefydlog 18.8, nid oes gan unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yr hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfnod pan roedd yr Aelod hwnnw'n rhan o'r Llywodraeth.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu slot ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog unwaith bob tymor ar ddydd Iau (ochr yn ochr â chyfarfodydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc/y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol/a'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd).

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gadw'r slot ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar brynhawn dydd Llun, gan nodi bod cynnal cyfarfodydd ar brynhawn dydd Llun yn cyfyngu ar aelodaeth y Pwyllgor ac yn arwain at ddirprwyo rheolaidd.

**Busnes Arall**

Nododd y Dirprwy Lywydd fod nifer o gwestiynau wedi'u tynnu yn ôl yn ddiweddar am resymau amrywiol. Atgoffodd y Dirprwy Lywydd y Rheolwyr Busnes fod angen osgoi'r achosion hynny lle bo'n bosibl.